Y newyddion diweddaraf gan y Gwasanaeth Anabledd a Sgiliau ar ein Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol

Asesiadau Effaith ar sail Rhyw

Cynhaliodd y Gwasanaeth Anabledd a Sgiliau adolygiad o'i holl bolisïau a swyddogaethau presennol ar gyfer y Ddyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol, ac mae gennym ymrwymiad parhaus i adeiladu ar yr asesiadau blaenorol a datblygu unrhyw faterion a amlygwyd fel rhan o'r broses adolygu. Cynhelir yr adolygiad yn unol ag adolygiad DWP cyn mis Ebrill 2010.

Mae'r Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr yn parhau i weithio gyda chydweithwyr i atgyfnerthu pwysigrwydd y broses asesu effaith a'r angen am ymgynghoriadau perthnasol ac ystyrlon. Rhoddwyd proses ar waith i sicrhau bod staff y Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr yn gallu cael gafael ar hyfforddiant priodol ym maes asesiadau effaith amrywiaeth. Hyd at fis Mawrth 2007, hyfforddwyd mwy nag 80 aelod o staff mewn meysydd allweddol i weithredu fel canolfan arbenigedd leol.

Dangos ein bod yn bodloni gofynion llawn y Ddyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol.

Mae'r Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr yn cydymffurfio â'r polisïau Amrywiaeth a Chydraddoldeb a Safonau Ymddygiad penodol a orfodir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n gosod dyletswyddau a mesurau diogelwch ar bob aelod o staff.

Bydd y Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr yn cymryd mesurau i atal aflonyddu gan bartneriaid a sefydliadau y gweithiwn ar y cyd â hwy i sicrhau bod eu polisïau yn agored ac yn dryloyw a'u bod yn ystyried amrywiaeth a chydraddoldeb o ran y ffordd y maent yn darparu eu gwasanaethau.

Mae'r Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr yn rhoi canllawiau llawn i'w staff i ymdrin â'r broses o dderbyn Tystysgrifau Cydnabod Rhyw a chwestiynau gan gwsmeriaid. Mae gennym ganllawiau arfer da ar gydnabyddiaeth rhyw, pobl drawsrywiol a phobl drawsryw.

Ymgynghoriad

Ers cyhoeddi'r Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol, mae'r Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr wedi penodi rheolwr arweiniol penodol sy'n gyfrifol am ddatblygu materion yn ymwneud ag Amrywiaeth. Mae'r swydd hon yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Cwsmeriaid a Chysylltiadau Allanol a bydd yn atgyfnerthu ymgysylltiad y Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr â'n cwsmeriaid.

Monitro

Mae'r Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr yn casglu gwybodaeth am rywedd pob un o'i gwsmeriaid. Caiff strategaeth ar gyfer monitro'r wybodaeth hon ei rhoi ar waith cyn adolygiad yr Adran Gwaith a Phensiynau yn 2010.